# Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

**Cyfarfod hybrid - rhithwir drwy Microsoft Teams / Ystafell Hafod, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ**
**Dydd Iau 15 Rhagfyr 2022**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt, Aelod o'r Senedd | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd) |
| David TC Davies, Aelod Seneddol | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| David Thorne | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Dan Jones | Cyfarwyddwr, Uned Atal Trais |
| Liz Lalley | Cyfarwyddwr Interim, Ailgychwyn ac Adfer, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Sam Clutton | Uwch Reolwr Rhaglen, Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru |
| Judith Cole | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwyr, Is-adran Croeso a Llety Cychwynnol, Llywodraeth Cymru |
| Nick Wood | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Akhtar | Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Chris Batchelor | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Mark Brace | Pennaeth Interim y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Asif Afsar | Rheolwr Polisi Cymru Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |

| | |
|---|---|
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Cyswllt yr Heddlu |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Sarah Capstick | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLlLC |
| James Searle | Pennaeth y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol Adfer wedi COVID-19, Llywodraeth Cymru |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

**Materion yn codi o'r cyfarfod**

| | |
|---|---|
| Cadarnhaodd y Cadeirydd yr hoffai wahodd Lynne Neagle, Aelod o'r Senedd, i'r cyfarfod nesaf er mwyn dychwelyd at y drafodaeth hon ond dywedodd y byddai'n codi'r mater ynghylch Byrddau Iechyd yn unol â sylw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael. | Jane Hutt AS |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y cyfarfod ac estynnodd groeso i aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Nododd y Gweinidog mai dyma'r cyfarfod hybrid cyntaf ers dechrau pandemig COVID-19. Croesawodd David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd hefyd Mark Brace a oedd yn ymuno â'i gyfarfod cyntaf fel Pennaeth Interim y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, Amanda Blakeman, sydd newydd gael ei phenodi yn Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chris Batchelor, sydd wedi olynu Asim Hafeez yn ei rôl fel Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig yn y Swyddfa Gartref. Diolchodd i Jon Drake am ei waith yn yr Uned Atal Trais yn dilyn ei ymddeoliad diweddar a soniodd fod Dan Jones wedi cael ei benodi i'r rôl hon a'i fod yn bresennol yn rhithwir heddiw. Soniodd y Gweinidog hefyd ei bod yn falch gweld bod Jenny Hopkins o Wasanaeth Erlyn y Goron wedi cael ei gwahodd a'i bod wedi ymuno'n rhithwir a bod Jaime Kalhan o Her Voice Wales yn bresennol i wylio'r cyfarfod gyda'i hebryngwr Alexandra Thomas.

## 2. Gair o Groeso a Sylwadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Diolchodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r bwrdd am y croeso a nododd fod plismona yn fater a gedwir yn ôl ond ei fod yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd a'i fod yn edrych ymlaen at wneud hynny yn y dyfodol. Eglurodd ei fod wedi ymweld â Gwent ddoe lle cyfarfu â 51 o Gwnstabliaid a oedd newydd dyngu llw a dywedodd yr hoffai wneud yr un peth â'r heddluoedd eraill.

## 3. Materion Allweddol i'w Trafod

### 3.1. Diweddariad ar Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau/Camddefnyddio Sylweddau

Eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn fod papur wedi'i rannu er gwybodaeth i roi diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran camddefnyddio sylweddau, sy'n trafod cyfleoedd i gydweithio a'r awydd i greu strategaeth newydd yn y dyfodol. Dywedodd ei fod yn awyddus i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru barhau i roi sylw penodol i gamddefnyddio sylweddau.

Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne fod problemau o ran camddefnyddio sylweddau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau'n parhau. Mae'r papur

yn disgrifio'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth sy'n cynnwys asiantaethau eraill fel Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd. Mae'r data yn dangos nad yw'r broblem yn gwella a bod mwy o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ogystal â marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i dreialu ffordd newydd o weithio drwy ddefnyddio dull amlasiantaethol dwys ac addasu prosesau presennol er mwyn darparu gwasanaeth gwell a fyddai'n cynnig darpariaeth glinigol a seicolegol mor gynnar â phosibl.

Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yn teimlo mai'r ateb hirdymor yw cryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er mwyn diwallu anghenion cymunedau drwy geisio sicrhau bod data'n cael eu rhannu'n gyflymach ar ôl gorddos nad yw'n angheuol.

**3.1.1.** Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am ei fewnbwn a dywedodd yr hoffai ddychwelyd at y drafodaeth hon pan fydd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynne Neagle AS, yn bresennol. Gwahoddodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael i wneud sylwadau ar y pwnc hwn.

**3.1.2.** Soniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael ei fod wedi cael ymweliad cynhyrchiol â Lynne Neagle AS ac eglurodd fod y Prif Gwnstabl Vaughan wedi bod yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd a gyfarfu yn y modd digwyddiad critigol.

Bu gwaith ymgysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru lle ymgysylltwyd â'r ddau awdurdod lleol yn llawn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos bod her fawr yn wynebu Cymru, yn enwedig yn ardal Bae Abertawe. Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael fod angen dod o hyd i ffordd fwy effeithlon o fynd i'r afael â'r problemau hyn yn hytrach na gwneud mwy o'r un peth, er enghraifft, dull cyfunol a fyddai'n cynnwys addysg a phobl ifanc.

Eglurodd y byddai'n fuddiol pe gallai'r un gwaith ymgysylltu ddigwydd ar lefel y Byrddau Iechyd oherwydd roedd bwriad cynnal cyfarfod ond clywodd nad oedd modd cynnal y cyfarfod hwnnw am fod y Byrddau wedi ymateb gan ddweud eu bod yn rhy brysur. Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael fod y baich ar yr heddlu yn sylweddol am nad oes modd mynd i'r afael â'r broblem.

**3.1.3.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Lewis mai ef yw Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar Gyffuriau. Cymeradwyodd waith y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a phwysleisiodd fod rhannu gwybodaeth yn hollbwysig oherwydd bydd modd mapio defnyddwyr cyffuriau a thargedu cymorth lle mae angen.

Cadarnhaodd y Cadeirydd yr hoffai wahodd Lynne Neagle AS i'r cyfarfod nesaf er mwyn dychwelyd at y drafodaeth hon ond dywedodd y byddai'n codi'r mater ynghylch Byrddau Iechyd yn unol â sylw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael.

### 3.2. Yr Argyfwng Costau Byw/Pwysau'r Gaeaf

Agorodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert drwy egluro bod cysylltiad rhwng yr argyfwng Costau Byw a Phwysau'r Gaeaf. Dywedodd mai materion gweithredol yw'r rhain yn bennaf ond eu bod hefyd yn effeithio ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae'n teimlo ei bod yn bwysig bod partneriaid yn gwybod, ynghanol yr holl weithredu diwydiannol sy'n digwydd ar hyn o bryd, na all swyddogion yr heddlu gymryd camau gweithredu diwydiannol.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y papur a gyflwynwyd gan Plismona yng Nghymru sy'n tynnu sylw at y pwysau sy'n gael ei greu fel streiciau, cynnydd mewn cam-drin domestig, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, sydd i gyd yn arwain at fwy o alwadau yn ogystal â mwy o broblemau iechyd meddwl.

Cyfeiriodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert at broblem chwyddiant hefyd gan ddweud bod y cynnydd mewn cyfraddau llog yn effeithio ar forâl gan fod pryderon y bydd y goblygiadau o ran gwasanaethau gweithredol yn arwain at broblemau yn y dyfodol, yn ogystal â'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar braesept y flwyddyn nesaf.

Disgrifiodd y Prif Gwnstabl Vaughan y sefyllfa bresennol o ran chwyddiant gan ganolbwyntio ar faterion gweithredol. Dywedodd fod troseddau meddiangar yng Nghymru wedi lleihau yn flaenorol, o ganlyniad i COVID-19 o bosibl, ond bod heddluoedd Cymru wedi llwyddo i gynnal y lleihad hwn o gymharu ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae lefelau wedi dechrau cynyddu yn ystod y tri mis diwethaf o ganlyniad i chwyddiant a phwysau ar gyllidebau cartrefi, ond dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan ei fod yn awyddus i beidio â throseddoli'r rhai sydd angen help a chefnogaeth.

Atgyfnerthodd bwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert fod mwy o bwysau ar wasanaethau o ganlyniad i weithredu diwydiannol. Dywedodd na all swyddogion yr heddlu wrthod gweithio ac o ganlyniad i hyn, mae gwasanaethau eraill yn dibynnu ar blismona ond pwysleisiodd na allant ddarparu gwasanaethau ambiwlans o ganlyniad i lefel yr hyfforddiant meddygol sydd ei angen ond y byddant yn parhau i gefnogi'r gwasanaethau hyn lle bo hynny'n bosibl.

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert a'r Prif Gwnstabl Vaughan fod yr argyfwng Costau Byw yn effeithio ar Swyddogion a Staff yr Heddlu hefyd, fel y dengys adroddiad Gwasanaeth Cyd-gynghori'r Heddlu. Eglurodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod cyd-drafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch pa fath o help y gellir ei ddarparu.

Tynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan sylw at rai problemau cysylltiedig sy'n wynebu heddluoedd Cymru fel y praesept, targedau Cynllun yr Heddlu a Throseddu a'r setliad arian gwastad a'r pwysau ar gyflogau ym maes plismona er mwyn cynnal niferoedd Swyddogion yr Heddlu.

**3.2.1.** Eglurodd Nick Woods ei fod yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd ar ran Judith Paget a'i fod yn teimlo ei bod yn bwysig rhoi sylw i weithredu diwydiannol. Maent yn ymwybodol o'r broblem o ran ymateb i alwadau a gaiff ei thrafod bob dydd yn ogystal â pherfformiad ymateb. Dywedodd Nick Wood nad yw'r rhain gystal ag yr hoffent iddynt fod ar hyn o bryd a bod yr un peth yn wir ledled y DU. Caiff hyn ei ysgogi gan y sefyllfa economaidd-gymdeithasol a'r cynnydd yn nifer y galwadau. Fel enghraifft, dywedodd fod nifer y galwadau ymateb coch wedi codi uwchlaw 200 am y tro cyntaf yn y DU gyda 30% o'r galwadau dyddiol yn rhai aciwtedd lefel uchel a bod y gwasanaeth 111 wedi cael dros 12,000 o alwadau dros y penwythnos. Dywedodd Nick Wood fod nifer o gynlluniau i wella amseroedd ymateb a fyddai'n golygu na fyddai'r GIG yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus eraill ac y bydd hyn yn cael ei fonitro o hyd.

**3.2.2.** Nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod y rhain yn faterion parhaus pwysig a dywedodd mai hi yw Gweinidog Arweiniol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw a'i bod yn cyfarfod â phartneriaid yn rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cymru'n helpu lle bo modd ac, fel enghraifft, cyfeiriodd at yr ymgyrch bresennol i annog mwy o bobl i fanteisio ar y budd-daliadau sydd ar gael iddynt a'r cynllun mannau cynnes, lle hoffai wahodd PCSOs i ddarparu cymorth a gwybodaeth i'r rhai sy'n bresennol. Bydd trafodaethau ar y mater hwn yn parhau.

**3.2.3.** Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael bapur ar Ethos Partneriaeth Plismona yng Nghymru. Nod y papur oedd dangos y materion y mae heddluoedd yn ymgysylltu â nhw ac un o'r enghreifftiau a roddwyd oedd gwasanaeth 101. Dywedodd nad yw mwyafrif y galwadau yn faterion plismona a phan nad oes gwasanaethau eraill ar gael, mae angen i'r heddlu helpu. Eglurodd fod gwaith diogelwch cymunedol wedi cynyddu drwy waith partneriaeth a bod hyn wedi parhau yng Nghymru yn sgil y gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19. Dywedodd ei fod yn awyddus i beidio â cholli hyn nawr yn ystod cyfnod o anawsterau ariannol.

Soniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael fod dymuniad y Prif Weinidog i gael Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru ar agenda Cyngor Partneriaeth Cymru, felly hoffai greu trafodaeth i weld sut y byddai hynny'n gweithio.

**3.2.4.** Myfyriodd y Prif Gwnstabl Blakeman ar y ddau bapur a nododd fod troseddau meddiangar, fel lladrata, yn cynyddu yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Nid yw'n ymddangos bod y cyflawnwyr yn droseddwyr mynych, felly nid yw'n awyddus i weld cymunedau'n cael eu targedu o ganlyniad i anobaith. Dywedodd fod angen ceisio sicrhau cydbwysedd o ran y modd y caiff materion eu mesur ar gyfer y Cynllun Gorchfygu Troseddu oherwydd gallai hyn achosi trafferthion.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi amlinellu safbwynt clir ynghylch fetio a all annog unigolion i beidio â datgan unrhyw broblemau ariannol. Felly, hoffai ddod o hyd i ddull teg o ran y ffordd y mae heddluoedd yn defnyddio'r argymhellion.

**3.2.5.** Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas hefyd nad yw'n awyddus i weld gwasanaethau ieuenctid yn cael eu colli wrth i heddluoedd wynebu sefyllfa anodd o ran eu cyllidebau. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod Jamie Kalhan yn gweithio gyda gwasanaethau ieuenctid ym Mro Morgannwg ar ddiogelwch merched ar y strydoedd.

**3.2.6.** Tynnodd y Prif Gwnstabl Kelly sylw at y ffaith bod gwasanaethau'n ansicr ar hyn o bryd ynghylch beth yw'r 'normal newydd' ar ôl COVID-19 ac, felly, yr hoffent drafod y manylion hyn. Ychwanegodd y bydd adolygiad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu o gynhyrchiant yn edrych ar rwystrau i effeithlonrwydd plismona, ond ei bod yn awyddus i edrych ar y gwaith ehangach gyda Byrddau Cynllunio Ardal ac ati. Mae'r Prif Gwnstabl Kelly o'r farn bod angen gwybod beth yw'r problemau oherwydd, ar hyn o bryd, mae'n rhaid i heddluoedd ddarparu cymorth yn gyson mewn amrywiaeth eang o feysydd, fel cadw carcharorion yng nghelloedd yr heddlu am nad oes digon o le, a streiciau ac ati.

Diolchodd y Gweinidog i'r bwrdd am ei fewnbwn a dywedodd fod hyn yn berthnasol i Gymru gyfan ond ei fod yn dangos y gwaith partneriaeth a bod atal yn hollbwysig.

**3.3. Pwysau ar Gyllid yr Heddlu a Goblygiadau o ran y Praesept**

Trafododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert y pwysau ariannol yn nhermau goblygiadau o ran y praesept; soniodd ei fod wedi ymuno â weminar â'r Gweinidog Plismona ynghylch Grant yr Heddlu a oedd fel pe bai'n canolbwyntio ar faterion yn Lloegr. Pwysleisiodd fod y trefniadau gweinyddol yn wahanol yng Nghymru sy'n creu anghydbwysedd gyda'r grant ac, o ganlyniad, mae'n anodd cydbwyso anghenion gweithredol â fforddiadwyedd cyhoeddus. Felly, argymhellodd y dylid edrych yn agosach ar rannu adnoddau, gwybodaeth a chyfrifoldebau.

Ychwanegodd y Gweinidog fod y sefyllfa ariannol yng Nghymru'n anodd a bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyflwyno cyllideb ddrafft a oedd mor gefnogol â phosibl, gan y bydd llawer o

gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a'r GIG, yn effeithio ar blismona.

**3.3.1.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod y sefyllfa'n wahanol y tro hwn am fod heddluoedd yn cael eu dwyn i gyfrif am niferoedd Swyddogion yr Heddlu o ganlyniad i Ymgyrch Uplift. Mae heddluoedd am gynnal niferoedd PCSOs yn wahanol i gyfnodau blaenorol o gyni ond mae'r sefyllfa'n heriol y tro hwn. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod dirfawr angen cyfleuster hyfforddi arfau tanio newydd ar gyfer y tri heddlu yn y de. Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer meysydd fel Gwrthderfysgaeth ond mae cost y cynllun wedi dyblu ers iddo gael ei gynnig gyntaf, felly mae angen cymorth gan Lywodraeth y DU.

**3.3.2.** Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert ei fod yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru'n cynnal agweddau allweddol fel PCSOs gan fod hyn yn helpu i ddangos lefel y cymorth i gymunedau. Dywedodd ei fod wedi codi mater y Maes Saethu Arfau Tanio ar y Cyd â'r Gweinidog Plismona a gytunodd fod angen adolygu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf.

**3.3.3.** Mae Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools yn teimlo bod angen dysgu o'r cyfnod diwethaf o gyni a bod gwaith wedi cael ei wneud o ran sut i wneud y penderfyniadau hyn a blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf.

### 3.4. Ymddiriedaeth a Hyder y Cyhoedd mewn Plismona a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert ei fod yn gwybod bod y problemau presennol mewn perthynas â Heddlu Gwent wedi arwain at gryn drafodaeth. Eglurodd fod ymchwiliad yn mynd rhagddo ac nad oes ganddo rôl ffurfiol yn yr ymchwiliad hwnnw, fel sy'n briodol, ond dywedodd ei fod yn ffyddiog y bydd y Prif Gwnstabl Kelly a'r Dirprwy Brif Gwnstabl Williams yn ymdrin â'r achos yn briodol. Cydnabu fod angen mynd i'r afael â'r problemau o ran diwylliant ac eglurodd fod adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd sy'n cynnwys materion fel moeseg ond ei fod yn gwybod nad mater plismona yn unig yw hwn, ond problem gymdeithasol sy'n debygol o effeithio ar bob gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub Llundain a De Cymru. Gofynnodd sut y gall arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus helpu i ddatrys y broblem hon. Pwysleisiodd fod yr hyn a wnaeth yr unigolion dan sylw yn annerbyniol ac, am fod plismona'n cael ei ddal i safon uwch na phawb arall, fod angen adfer hyder yn y gwasanaeth.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod Plismona yng Nghymru yn benderfynol o ddod o hyd i'r unigolion a wnaeth siomi'r gwasanaeth a phwysleisiodd lefel yr oruchwyliaeth i ddileu'r math hwn o ymddygiad oherwydd nid yw'n fater y gellir ei ddiystyru.

**3.4.1.** Diolchodd y Prif Gwnstabl Kelly i'r Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y gefnogaeth gyhoeddus y maent wedi'i dangos i Heddlu Gwent dros yr wythnosau diwethaf. Pwysleisiodd ei bod wedi gweithio'n ddiflino dros y pedair blynedd diwethaf i herio diwylliant amhriodol lle y bo'n bodoli a'i bod yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad o'r hyn sydd ei angen yng Nghymru. Cyfeiriodd y Prif Gwnstabl Kelly at ei chynllun i weithio gyda phrifysgolion er mwyn sefydlu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn rhoi cyfle i adrodd ar hyder y cyhoedd gan ei bod yn gwbl ymwybodol o'r effaith a gaiff hyn ar gymunedau.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod yn bwysig myfyrio ar ddatganiadau diweddar a wnaed yn y Senedd. Gwnaed y datganiadau hyn heb gysylltu â'r sefydliad er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch y materion a ymddangosodd yn y cyfryngau ac awgrymodd y dylid pennu safon

ynghylch sut i weithredu gan ei bod o'r farn bod methiant i sicrhau diwydrwydd dyladwy cyn gwneud datganiad yn dangos diffyg parch a chywirdeb. Gofynnodd am gefnogaeth i herio hyn gan ei bod o'r farn bod yr hyn a ddigwyddodd yn anghyfiawn, yn enwedig pan fo heddluoedd yn gwneud eu gorau i herio'r problemau hyn.

**3.4.2.** Nododd y Gweinidog sylwadau'r Prif Gwnstabl Kelly a dywedodd fod yr hyn a ddigwyddodd yn annerbyniol a chadarnhaodd gefnogaeth Llywodraeth Cymru unwaith eto. Ychwanegodd ei bod wedi cyfarfod â Hannah Blythyn, Aelod o'r Senedd, a gadarnhaodd fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i adolygiad annibynnol o'r honiadau a wnaed yn ei erbyn.

**3.4.3.** Tynnodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools sylw at y ffaith bod cyfle i ganolbwyntio ar newid diwylliant drwy Lywodraeth Leol yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru.

**3.4.4.** Ategodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael y pwyntiau a wnaed drwy ddweud bod pob asiantaeth yn cydweithio i newid yr awyrgylch yng Nghymru. Cyfeiriodd at graffu drwy ddweud ei fod yn fwyfwy ymwybodol o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y gwaith hwn. Eglurodd fod tuedd i deimlo bod angen craffu mwy pan fo problemau'n codi ond ei fod yn teimlo bod mwy o ymgysylltu â heddluoedd nag o'r blaen.

Diolchodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i aelodau'r bwrdd am eu mewnbwn a dywedodd eu bod wedi cael trafodaeth gynhwysfawr bwysig.

**4. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**

Cytunwyd y cafodd yr eitem hon sylw yn ystod y trafodaethau o fewn yr eitemau craidd.

**5. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad**

Cododd y Gweinidog bwnc Cynllun Uwch-noddwyr Cartrefi i Wcráin. Mae Mike Connolly, Dirprwy Gyfarwyddwyr yr Is-adran Croeso a Llety Cychwynnol, wedi adolygu'r modd y mae gwesteion yn cyrraedd; bu cynnydd cychwynnol a rhagwelwyd y byddai mwy o westeion gan fod fisâu wedi cael eu cymeradwyo. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i symud pobl o ganolfannau croeso i lety mwy sefydlog. Dywedodd y bu rhywfaint o weithredu yn erbyn mudwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot yr wythnos diwethaf sydd wedi digwydd o'r blaen, felly gofynnodd sut y gallai gwasanaethau helpu gwesteion i ymgynefino yng Nghymru.
Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan ei fod yn gobeithio bod yr heddlu wedi cael gwybod am y gweithredu a chadarnhaodd y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

**5.1.** Trafododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael ddatblygiad yr eitem Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a godwyd ym mhapur Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys gan ei fod yn teimlo ei fod yn datblygu'n dda ond dywedodd fod problem o ran llywodraethu a goruchwylio. Soniodd fod cynllun i gynnal cyfarfod argyfwng mewn perthynas â hyn. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael yn gobeithio y cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ymhen rhai wythnosau. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud ei bod yn falch bod yr arweiniad yn cael ei ddiwygio a bod cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod pryderon.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn am dynnu sylw at raglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru a datblygiad Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol fel

rhan o hynny. Nododd bryderon am y ddarpariaeth yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Dywedodd fod camau uwchgyfeirio wedi cael eu cymryd drwy'r sianeli cywir ond bod effaith ariannol ganlyniadol ar y gwaith sydd ei angen yn Bow Street, Aberystwyth y maent yn gweithio i'w datrys. Diolchodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a swyddogion eraill am ofyn am gyfarfod ynghylch cyllid y cyfleuster hwn.

**5.2.** Cytunwyd y byddai'r Gweinidog Plismona yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ond yr ymgynghorir â'r Prif Weinidog yn gyntaf cyn anfon y gwahoddiad.

## 6. Unrhyw Fater Arall

**6.1.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y byddai'n croesawu adborth ar y cyfarfod hybrid hwn gan ei bod yn awyddus i beidio â rhoi neb sy'n mynychu ar-lein dan anfantais.

**6.2.** Rhoddodd y Gweinidog gyfle i Jaime Kalhan dynnu sylw at yr arolwg y mae wedi bod yn gweithio arno ynghylch diogelwch merched ifanc. Eglurodd Jaime fod y gwaith yn canolbwyntio ar aflonyddu rhywiol cyhoeddus ar ferched o dan 18 oed a'i bod yn gobeithio creu mannau diogel. Ychwanegodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod Jaime yn bwriadu gwahodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Swyddogion o Heddlu De Cymru i gael canlyniadau'r arolwg ym Mro Morgannwg.

**6.2.1.** Soniodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas y byddai'n awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth gan ei bod yn gyd-gadeirydd ffrwd waith sy'n arwain ar Blant a Phobl Ifanc.

Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools hefyd y byddai'n hapus i gwrdd â Jaime; cefnogodd y Gweinidog hyn ac mae'n gobeithio y bydd yr un peth yn digwydd mewn meysydd plismona eraill gan fod yr holl faterion hyn yn gysylltiedig.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 23 Mawrth 2023 rhwng 2 a 4pm